


Cambria Archaeology
NEWSLETTER 6 AUTUMN 2007
NEWYDDLLEN 6 MEDI 2007
Archaeoleg Cambria



www.cambria.org.uk





Cover: excavation at the Dinefwr Cold Bath. Left: the open day at the Cold Bath.

Clawr: cloddio ger Baddon Oer Dinefwr. Chwith: y diwrnod agored yn y Baddon Oer.

Cambria is the working name of The Dyfed Archaeological Trust, an independent organisation dedicated to the effective protection, investigation, recording and promotion of the historic environment.

Cambria has a highly motivated professional workforce with a wide range of skills and experience. This is complemented by long established contacts and partnerships with external specialists enabling Cambria to offer extensive consultancy and other archaeological services.

The Shire Hall, Carmarthen Street,
Llandeilo,
Carmarthenshire SA19 6AF
01558 823121
Email Richard Jones—
richardj@Cambria.org.uk
(Limited Company No. 1198990—
Registered Charity No. 504616)

Cambria yw enw gweithio Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, corff annibynnol sy'n ymroi i ddiogelu, ymchwilio, cofnodi a hybu'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol.

Mae gan Cambria weithlu proffesiynol ac uchel eu cymhelliant syd ag amrywiaeth mawr o sgiliau o phrofiad. Ategir hynny â chysylltiadau a phartneriaethau—sy'n bod ers tro byd—ag arbenigwyr allanol sy's fodd i Cambria gynnig gwasanaethau ymgynhori a gwasanaethau archaeolegol eraill.

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin,
Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
01558 823121
Ebost Richard Jones—
richardj@Cambria.org.uk
(Cwmni Cyfyngedig 1198990 - Elusen
Gofrestredig 504616)

Production of this newsletter was grant-aided by Cadw



www.cambria.org.uk



Cynhyrchwyd y newyddlen hon gyda chymorth grant gan Cadw

AN EIGHTEENTH CENTURY COLD BATH HOUSE AT DINEFWR PARK

During the 18th century cold baths, which ranged from substantial buildings to simple open plunge-pools, became one of the must-have features for owners of large estates. The Dinefwr Estate in Carmarthenshire was no exception. The site of the Dinefwr cold bath is marked on 19th century Ordnance Survey maps and the spring that fed it still gushes, but of the cold bath there is no trace. When the National Trust commissioned us to investigate the site we had some doubts as to what survived below ground. To our surprise the foundations of what must have been a small but elegant building were almost immediately revealed, surrounding a plunge-pool of just a few meters square. Only the top of the archaeological deposits were exposed and therefore dating evidence was not obtained. Following a successful open day, arranged by Cambria Archaeology and the National Trust, the remains were covered over.

Tŷ BADDON OER O'R DDEUNAWFED GANRIF YM MHARC DINEFWR

Yn ystod y 18fed ganrif daeth baddonau oer, a oedd yn amrywio o adeiladau sylweddol i byllau plymio agored syml, yn nodwedd anhepgor i berchnogion ystadau mawr. Nid oedd Ystâd Dinefwr yn Sir Gaerfyrddin yn eithriad. Nodwyd safle baddon oer Dinefwr ar Fapiau Ordans y 19eg ganrif ac mae'r ffynnon a'i bwydodd yn dal i ffrydio, ond nid oes sôn am y baddon oer. Pan gawsom gomisiwn gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i archwilio'r safle roedd gennym rai amheuon ynghylch yr hyn a oedd wedi goroesi o dan y ddaear. Er syndod i ni, datguddiwyd sylfeini'r hyn a oedd, fwy na thebyg, yn adeilad bach ond urddasol, a hynny ar unwaith bron, o amgylch pwll plymio o ryw ychydig o fetrau sgwâr. Ni welwyd ond pen y dyddodion archeolegol ac felly ni chafwyd tystiolaeth ar gyfer dyddio. Ar ôl diwrnod agored llwyddiannus, a drefnwyd gan Archaeoleg Cambria a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ail-orchuddiwyd y gweddillion.

NEW ARCHIVE STOREROOM

As reported in the last newsletter new facilities have been provided in the Trust's offices, funded by Llandeilo Fawr Town Council, owners of the Shire Hall, with grant aid from the 1 Fund. One element of the new work is a purpose-built storeroom with environmental control to house and ensure the long-term preservation of the Historic Environment Record. Stack shelving has been installed and the records are being moved into the room.

YSTORDY ARCHIFAU NEWYDD

Fel y nodwyd yn y cylchlythyr diwethaf, darparwyd cyfleusterau newydd yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth, wedi'u hariannu gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr, sef perchnogion yr hen Neuadd Sirol, gydag arian grant o Gronfa 1. Un elfen yn y gwaith newydd yw ystordy pwrpasol â rheolaeth amgylcheddol i fod yn gartref i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu yn y tymor hir. Gosodwyd silffoedd stacio ac mae'r cofnodion yn cael eu symud i'r ystafell.

CLODDIO AR GAER FYNYDDIG ANGHYFLAWN


Canolbwyntiodd tymor pellach o gloddio ac arolwg ar dyddynnod/caerau cynhanesyddol wedi'u hamddiffyn ar safle yn Berry Hill ger Trefdraeth yn Sir Benfro. Cafwyd bod rhan o'r clawdd amddiffynnol o amgylch i'r gaer yn anghyflawn, a hyn, gyda'r dystiolaeth arall, sy'n awgrymu nad oedd y gaer yn gyflawn ac mai am gyfnod byr o amser yn unig y'i defnyddiwyd. Ni chafwyd gwrthrychau i'w dadansoddi ac felly bydd dyddio'r safle'n ddibynnol ar benderfyniadau radio carbon.

Cafwyd canlyniadau da gan arolygon geoffisegol mewn safleoedd eraill. Roedd arolwg yn Eglwys Llangan, Sir Gaerfyrddin, yn arbennig o ddiidorol. Ychwanegodd yr arolwg yno fanylion at y safle a ddynodwyd gan olion cnydau ac a ddarganfuwyd o'r awyr gan Terry James yn y 1980au. Ymgymerir â'r prosiect gan Archaeoleg Cambria a Phrifysgol Caerefrog ac mae'n derbyn cymorth grantiau gan Cadw. Mae 'dyddiadur cloddio' ar gael ar ein gwefan, sef www.cambria.org.uk

EXCAVATION ON AN UNFINISHED HILL-FORT

A further season of excavation and survey on prehistoric defended farmsteads/forts focused on a site at Berry Hill at Newport in Pembrokeshire. Part of the defensive ditch surrounding the fort was found to be incomplete, and this, with other evidence, suggests that the fort was unfinished and was used for only a short period of time. No diagnostic artefacts were found and therefore dating of the site will rely on radiocarbon determinations.

Geophysical survey at other sites continued to return good results. Of particular interest was the survey at Llangan Church, Carmarthenshire, where the survey added detail to the crop-mark site discovered from the air by Terry James in the 1980s. The project is being undertaken by Cambria Archaeology and the University of York and is grant-aided by Cadw. A 'dig diary' of the excavations is available on our website www.cambria.org.uk



NEWLY DISCOVERED PREHISTORIC ROCK CARVING AT ST DAVIDS

Whilst on holiday at Caerfai Bay Caravan and Camp Site at St Davids the Trust Director noticed what seemed to be cup-marks carved into the face of a stone erected at the site's entrance. Closer examination confirmed this. This type of prehistoric rock carving is rare in Wales, and this previously unknown example is one of the best in the southwest. The stone was dug up a few years ago during drain excavation and erected as an attractive entrance feature. The site's owners had noticed the carvings, but were not aware of their significance.

CERFIO CREIGIAU CYNHANESYDDOL NEWYDD EI DDARGANFOD YN NHYDDEWI

Pan oedd Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth ar ei wyliau ym Maes Carafannau a Gwersylla Caerfai yn Nhyddewi, sylwodd ar yr hyn a oedd yn ymddangos yn debyg i olion cwpanau wedi'u cerfio ar wyneb y graig a godwyd wrth fynedfa'r safle. Cadarnhawyd hyn gan archwilio manylach. Mae'r math hwn o gerfio cynhanesyddol yn brin yng Nghymru, ac mae'r enghraifft hon, nad oedd neb yn gwybod amdani o'r blaen, ymhlith goreuon y de-orllewin. Cloddiwyd y garreg rai blynyddoedd yn ôl yn ystod cloddio draen a'i gosod fel nodwedd fynedfa ddeniadol. Roedd perchnogion y safle wedi sylwi ar y cerfiadau, ond nid oeddent yn ymwybodol o'u harwyddocâd.



PEMBROKESHIRE ARCHAEOLOGICAL DAY SCHOOL

Saturday 17 November 2007



Pembroke College, Haverfordwest

Recent archaeological work and topics of archaeological interest will be presented at a day school organised by Cambria Archaeology and the Pembrokeshire Coast National Park Authority

For details contact Richard Jones richardj@cambria.org.uk 01558 825992

NEW CAMBRIA ARCHAEOLOGY PUBLICATIONS

Two new booklets produced by Cambria Archaeology on the history and archaeology of Carmarthen have recently appeared. Carmarthen: The Oldest Town in Wales is priced at £3.00 and Carmarthen Castle at £4.00. Both are available at outlets in Carmarthen.



CYHOEDDIADAU ARCHEOLEGOL NEWYDD CAMBRIA

Ymddangosodd dau lyfryn newydd a gyhoeddwyd gan Archaeoleg Cambria ar hanes ac archaeoleg Caerfyrddin yn ddiweddar. Pris Caerfyrddin: Tref Hynaf Cymru yw £3.00 a phris Castell Caerfyrddin yw £4.00. Mae'r ddau lyfryn ar gael mewn siopau yng Nghaerfyrddin.

YSGOL UNDYDD ARCHEOLEGOL SIR BENFRO

Dydd Sadwrn 17 Tachwedd 2007

Coleg Penfro, Hwlfordd

Caiff gwaith archeolegol diweddar a phynciau o ddi-ddordeb archeolegol eu cyflwyno mewn ysgol undydd a drefnwyd gan Archaeoleg Cambria ac Awdurdod Parc Arfordirol Cenedlaethol Sir Benfro

Am fanylion cysylltwch â Richard Jones richardj@cambria.org.uk 01558 825992

www.cambria.org.uk

COMMUNITY EXCAVATION AT MAENCLOCHOG'S OLD CASTLE

There are medieval records of a castle at Maenclochog in Pembrokeshire, and in the 19th century the site of the castle was identified as a rocky mound lying at the south end of the village. In the 18th century the site was used as a livestock pound, and now it is a car park. Members of the local community expressed an interest in discovering more about the castle, and therefore Cambria Archaeology, with financial support from Planed and the Pembrokeshire Coast National Park, organised an excavation. This is underway at the time of writing, but work has already revealed parts of the medieval castle, the 19th century pound and more surprisingly a prehistoric settlement underlying the castle. A 'dig diary' of the excavations is available on our website www.cambria.org.uk



CLODDIO CYMUNEDOL YN HEN GASTELL MAENCLOCHOG

Mae cofnodion canoloesol o gastell ym Maenclochog yn Sir Benfro, ac yn y ddeunawfed ganrif nodwyd bod y castell yn domen greigiog i'r de o'r pentref. Yn y 19eg ganrif defnyddiwyd y safle yn ffald anifeiliaid, ac erbyn hyn mae'n faes parcio. Mynegodd aelodau o'r gymuned leol ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am y castell, ac felly trefnodd Archaeoleg Cambria gloddio yno, gyda chefnogaeth ariannol Planed a Pharc Arfordirol Cenedlaethol Sir Benfro. Mae hyn yn digwydd ar adeg ysgrifennu, ond mae'r gwaith eisoes wedi datguddio darnau o'r castell canoloesol, ffald y 19eg ganrif ac yn fwy syfdanol byth, safle cynhanesyddol o dan y castell. Mae 'dyddiadur cloddio' ar y gwaith i'w gael ar ein gwefan, sef www.cambria.org.uk

www.cambria.org.uk